# bwletin lles

tachwedd 22

## Presenoldeb! Presenoldeb! Presenoldeb!

Mae'r hanner tymor cyntaf yn Ysgol Uwchradd Bodedern wedi bod yn un cyffrous iawn a llawn bwrlwm. Bu gweithgareddau STEM i flwyddyn 9, teithiau allgyrsiol i bynciau allgraidd a sesiynau adolygu i flwyddyn 11. Diolch yn fawr i bawb am fynychu ac i chi fel rhieni am eich cefnogaeth barhaus.

Er mwyn cael y gorau allan o'r gweithgareddau hyn ac i wneud y mwyaf o'r holl gefnogaeth sydd ar gael, mae angen bod yn yr ysgol cymaint â phosib.

Targed presenoldeb yr ysgol yw 100%. Gwyddwn bod hwn yn anodd i'w gyrraedd ar adegau efo salwch sy'n rhywbeth naturiol ymhlith pobl ifanc ond mae absenoldeb hir-dymor yn gallu cael effaith niweidiol ar addysg a iechyd meddwl pobl ifanc.

Rydym wedi cael 8 wythnos o ysgol yn ystod yr hanner tymor diwethaf, sef 39 diwrnod ysgol. Mae colli 4 diwrnod neu 24 gwers yn gyfystyr â cholli 10% o ysgol dros y cyfnod yma, sydd yn amharu yn sylweddol ar addysg ein pobl ifanc. Bydd hyn yn creu heriau fel gorfod dal i fyny efo gwaith a gollwyd.

Ond! Cofiwch bod cymorth ar gael a chofiwch gysylltu efo pennaeth blwyddyn eich plentyn i drafod unrhyw bryderon ynghylch absenoldebau.

**Cyfrifoldeb pob rhiant/gofalwr yw cysylltu efo'r ysgol ar ddiwrnod cyntaf absenoldeb eich plentyn, gan nodi y rheswm am yr absenoldeb a'r dyddiad dychwelyd. Gallwch ffonio 01407 741000 neu anfon neges destun drwy Schoolcomms.**

PENNAETH BLWYDDYN 7
Mr John Arwel Jones

PENNAETH BLWYDDYN 8
Mr Paul Magee

PENNAETH BLWYDDYN 9 -
Mr Bryan Griffiths (dros dro)

PENNAETH BLWYDDYN 10
Mr Sam Ellis

PENNAETH BLWYDDYN 11
Mr Carwyn Owen

PENNAETH BLWYDDYN 12 & 13
Mrs Awel Glyn

## Costau Byw

Mae costau byw yn parhau i fod ar feddyliau pawb ar hyn o bryd. Mae'r ysgol yn parhau i gefnogi teuluoedd yn ystod y cyfnod heriol yma.

Cinio am Ddim - linc ar ein gwefan
Banc Gwisg Ysgol - holwch y pennaeth blwyddyn
Pecynnau glanweithdra mislif - holwch y pennaeth blwyddyn
Cymorth cludiant i fynychu sesiynau adolygu a chlybiau ar ôl ysgol - holwch trefnydd y weithgaredd
Chromebooks - cysylltwch efo'r athro/pennaeth blwyddyn/dderbynfa

# welfare bulletin

november 22

## Attendance! Attendance! Attendance!

The first half term at Ysgol Uwchradd Bodedern has been an exciting one, full of activities. From STEM activities for year 9 to extracurricular trips and revision activities for year 11. A big thank you to all who attended and to you as parents for your continued support.

In order to get the most from these experiences and to take advantage of the support we offer, we ask that pupils attend school as much as possible.

Our school's target for attendance is 100%. We understand that attending school may be difficult at times due to illness, which is a natural occurrence amongst young people, but long-term absences can be damaging to an individual's education and mental health.

We have just had 8 weeks of school during the last half term, which is 39 school days. Missing 4 days or 24 lessons equates to missing 10% of school, which has a serious impact on the education of our young people. This will also present further challenges when pupils have to catch up on any work that has been missed.

However! Remember that help is available and please contact the head of year to discuss any concerns you may have regarding your child's absences.

**Parents/Carers are responsible for contacting the school on the first day of your child's absence, noting the reason for the absence and the date of return. You can phone 01407 741000 or send us a text through Schoolgateway.**

HEAD OF YEAR 7
Mr John Arwel Jones

HEAD OF YEAR 8
Mr Paul Magee

HEAD OF YEAR 9
Mr Bryan Griffiths (temporary)

HEAD OF YEAR 10
Mr Sam Ellis

HEAD OF YEAR 11
Mr Carwyn Owen

HEAD OF YEAR 12 & 13
Mrs Awel Glyn

## Cost of Living

The cost of living crisis continues to be a concern. The school continues to support families during these challenging times.

Free School Meals - link on our website
School Uniform Bank - please contact the head of year
Period Sanitary packs - please contact head of year or reception
Transport support for revision sessions or after school clubs - please contact the organiser
Chromebooks - please contact the teacher/ head of year/reception